Pris: 25c

# Papur Pawb

Rhagfyr 2004 Rhif 304




## Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl ddarllenwyr!

# Her Tai Fforddiadwy

Mae'n debyg nad yw'r broblem o ddiffyg darpariaeth tai fforddiadwy i bobl ifanc yng Ngheredigion yn un diarth i ni. Mae'n un o'r problemau mwyaf sy'n wynebu pobl y dyddiau hyn. Serch hynny, mae'r ystadegau a gyhoeddwyd yn ddiweddar ynglyn â'r gagendor rhwng incwm cyfartalog cartrefi'r sir a'r prisiau tai yn ysgytwol o drawiadol. Cyhoeddwyd mai Ceredigion oedd y man mwyaf



*Y Cynghorydd O. P. Huws*

anfforddiadwy yng Nghymru gyda chymhareb o 6 i 1, sy'n uwch na unrhyw fwrdeistref yn Llundain hyd yn oed. Dywedir fod incwm cyfartalog Ceredigion i bob cartref yn £18,894, tra bod pris tŷ yn £120,041 ar gyfartaledd ac yn uwch na hynny hyd yn oed bellach gyda phrisiau yn nes at £160,000 ar gyfartaledd

O gofio fod angen blaen-dâl o oddeutu £48,000 ar gwpwl yng Ngheredigion i sicrhau tŷ rhaid derbyn fod pobl ifanc gogledd y sir a phentref megis Tal-y-bont wedi eu cau allan o'r farchnad dai i bob pwrpas erbyn hyn. Mae darparu tai ar gyfer pobl lleol yn bwysig.

Wrth gwrs fel gyda phob dim o'r fath nid oes ateb hawdd i'r broblem. Ar nos Iau 18 Tachwedd cynhaliwyd cyfarfod ar y cyd gan ganghennau Tal-y-bont a Rhydypennau o Blaid Cymru i drafod problem tai fforddiadwy yn yr ardal. Y siaradwr gwadd oedd y Cynghorydd O. P.



Huws, aelod Plaid Cymru dros sedd Llanllyfni a Nantlle ar Gyngor Sir Gwynedd sydd wedi bod yn weithgar gyda phrosiectau sy'n ceisio mynd i'r afael a'r broblem o fewn y sir honno. Yn anad dim arall trafododd fel yr oedd angen ymateb i anghenion lleol yn ôl y galw lleol. Gwelai'r angen i fod yn arloesol gan ymateb i her datblygiad yn y gymuned gyda ni ein hunain yn gweithredu i ddarparu tai fforddiadwy yn ein hardaloedd. Gwelai'r angen i feddwl yn bositif ac o'r newydd ar yr holl beth a hynny'n lleol yn hytrach nag aros nes ei bod yn rhy hwyr am ateb gwyrthiol o rywle arall megis strwythur pwrpasol gan y Cynulliad Cenedlaethol, er fod angen parhau i lobïo am hynny.

Yn benodol trafodwyd y defnydd o 'Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol' lle trosglwyddwyd tir "in trust" i gwmniau cymunedol o bobl leol gan ostwng pris tir a gwarchod tir fel adnodd i'r dyfodol. Gellid ystyried trosglwyddo tir Cyngor Sir na wneir defnydd ohono ar hyn o bryd i brosiectau o'r fath. Roedd yn gyfarfod diddorol gan ysgogi rhywun i feddwl yn wahanol. Gobeithio fod yr hyn a glywid yn annog unigolion o fewn ardal Papur Pawb i wneud safiad dros sicrhau dyfodol ffyniannus i'r fro.





**Ffair y Neuadd gweler tudalen 5**

## Papur Pawb

| | | |
|---|---|---|
| **Golygyddion Cyffredinol:** | Eleri a Gwilym Huws<br>Pengwern, Tal-y-bont, Ceredigion | **(01970) 832231**<br>gwh@aber.ac.uk |
| **Tynnu lluniau:** | Cysyllter â golygyddion y mis. | |
| **Teipyddes:** | Carys Briddon | |
| | **GOHEBYDDION LLEOL** | |
| **Bont-goch:** | Hilda Thomas, Cwmere, Bont-goch | **832295** |
| **Parsel Henllys:** | Dilys Morgan, Alltgoch | **832498** |
| **Eglwysfach:** | Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais | **(01654) 781312** |
| **Taliesin:** | Mai Leeding, Glannant, Taliesin | **832672** |
| **Tal-y-bont:** | Aileen Williams, Maesmeillion | **832438** |
| | Kathleen Richards, Y Bryn | **832201** |
| **Tre'r Ddôl:** | Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl | **832429** |
| **Maes y Deri:** | Eirlys Jones, 91 Maes y Deri | **832483** |
| | **CYMDEITHAS PAPUR PAWB** | |
| **Cadeirydd:** | Robat Gruffudd, Bryngwyn, Tal-y-bont | **832718** |
| **Ysgrifennydd:** | Megan Mai, Gwynionydd, Tal-y-bont | **832384** |
| **Trysorydd:** | Gwyn Jenkins, Maes Gwyn, Tal-y-bont | **832560** |
| **Aelodaeth:** | Aileen Williams, Maesmeillion | **832438** |
| **Hysbysebion:** | Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais | **(01654) 781312** |
| **Plygwyr:** | Lyn Hammonds, Beti Jenkins,<br>Dafydd Parri, Gwenllian Parry-Jones | |
| **Dosbarthwyr:** | Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry-Jones,<br>Eurlys Jones (Tanysgrifiadau) | |

**Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth**
**Cyngor Celfyddydau Cymru - Bwrdd Gorllewin, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg**


# Llythyron

**Annwyl Ddarllenwyr**
Mae Côr ABC yn ddeng mlwydd oed! Cynhelir cinio pen blwydd Côr ABC ym Mhlas Antaron nos Sadwrn, 29 Ionawr 2005, ac mae croeso cynnes iawn i ffrindiau a chyn-aelodau ymuno â ni yn y dathlu. (Cysylltwch â Menai ar 611934 neu Angharad Fychan erbyn 17 Ionawr). Rydym hefyd am gynnal cyngerdd ddathlu ar 10 Mawrth, ac mae croeso cynnes iawn i chi ymuno â ni.
*Gyda diolch, Jamie Medhurst*

**Llwyddiant i**
**Ganolfan Cynghori Bro Ddyfi**
Mae Canolfan Cynghori Bro Ddyfi wedi ennill cais am gronfa trwy'r Drysorfa Gymdeithasol Ewropeaidd. Gweinyddir y gronfa gan y Cynulliad a chan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

Mae'r cynllun, sy'n para am flwyddyn, wedi ei anelu at ddarparu hyfforddiant i alluogi pobl dan anfantais i ddod o hyd i waith ac – os oes diddordeb ganddynt – i gael eu hyfforddi i fod yn Gynghorwyr Cyffredinol. Defnyddir rhan helaeth o'r gronfa i hyfforddi Cymry Cymraeg er mwyn i'r Ganolfan allu cynnig y gwasanaeth yn ddwyieithog.

Os oes ganddoch ddiddordeb yn y cynllun hwn, mae croeso i chi alw i mewn i'r Ganolfan, neu gadewch neges ffôn ar 01654 700192.
*Bob Dunn, Rheolwr/Cyd-drefnydd Hyfforddiant*

**Henllan, Dinbych**
**Annwyl ffrindiau**
Rwy'n ceisio dod o hyd i wybodaeth am deulu'r diweddar Barch Robert Jones (Trebor Aled), brawd fy mam; credaf iddo fod yn weinidog gyda'r Bedyddwyr yn Nhal-y-bont yn gynnar yn y ganrif ddiwethaf. Tybed a oes yna unrhyw un yn ei gofio, neu a oes perthynas iddo yn dal i fyw yn y cyffiniau? Byddwn yn ddiolchgar iawn am unrhyw wybodaeth.
Diolch yn fawr
Mrs Menna Jones
*(Os oes gennych unrhyw wybodaeth, cysyllwch ag Eleri Huws, Pengwern: 01970 832231)*


**C. Ff. I. Talybont a'r Cylch**
## Noson Bingo
Nos Fawrth, 18 Ionawr 2005
am 8.00 yh
yn Neuadd Goffa Talybont
Croeso Cynnes i Bawb



## CYNGOR CYMDEITHAS CEULANAMAESMAWR
Eleni eto, bydd y Cyngor yn barod i dderbyn ceisiadau am gymorth ariannol oddi wrth gymdeithasau a grwpiau oddi mewn i'r gymdeithas.
Anfoner cais, ynghyd â chopi o fantolen ariannol ddiweddar, at y Clerc – Goronwy Jones, Glasgoed, Tal-y-bont – **erbyn 28 Ionawr 2005** fan bellaf.



CYLCH MEITHRIN
TAL-Y-BONT
## Cyngerdd Nadolig
NOS LUN 13 RHAGFYR
NEUADD GOFFA
TAL-Y-BONT
6.30 o'r gloch yr hwyr

Stondin Gacennau/Crefft/Raffl
Paned a mins pei



CYMDEITHAS
SIOE TAL-Y-BONT
## GYRFA CHWIST DDOFEDNOD
NOS FERCHER 22 RHAGFYR
NEUADD GOFFA
TAL-Y-BONT

8.00 o'r gloch yr hwyr


# Dyddiadur

**RHAGFYR**

12 **Bethel** 10 Miss Beti Griffiths
**Nasareth** 10 Bugail (C)
**Rehoboth** 5 Bugail
**Eglwys Dewi Sant** 4 p.m. Gosber a Chymun

13 **Sefydliad y Merched Taliesin**. Cyngerdd Carolau. Rehoboth. I Ymchwil Cancr
**Ysgol Feithrin Tal-y-bont**. Cyngerdd – Hanes y Geni, 6.30 p.m. Neuadd Goffa. Raffl/Stondin Grefft/Cacennau

14 **Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont**. Canu Carolau

19 **Bethel** 10 Gweinidog
**Nasareth**
**Rehoboth** 2 Parch W.J. Edwards
**Eglwys Dewi Sant** Gwasanaeth Unedig 10 a.m. Cymun Bendigaid Llangorwen
**Bethel** 6 p.m. Cymanfa Garolau gyda Geraint Thomas ac eitemau gan blant Ysgol Tal-y-bont

21 **Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont**. Parti Nadolig

22 **Gyrfa Chwist**, Cymdeithas Sioe Amaethyddol Tal-y-bont. 8 p.m. Neuadd Goffa Tal-y-bont

24 **Ysgol Sul Bethel**, 5.30 'Y Pedwerydd Brenin'

25 **Bethel** 10 Parch Robert Williams Jones
**Eglwys Dewi Sant** 8.30 Cymun Bendigaid


26 **Bethel**
**Nasareth**
**Rehoboth** 10 Bugail
**Eglwys Dewi Sant** 2 Cymun Bendigaid. Steffan, Y Merthyr Cyntaf

27 **Eglwys Dewi Sant** 10 Cymun Bendigaid. Ioan, Apostol ac Efengylwr




**CYFARCHION NADOLIG**
Mae John Owen Elis (gynt o'r Glyn, Tal-y-bont) am ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w gyfeillion yn Nhal-y-bont a'r ardal. Mae John yn dod yn ôl i'r hen gymuned yn aml ac yn galw mewn sawl tŷ, heb sôn am y Sioe, ac fel mae pawb oedd yno yn gwybod, Ffair y Neuadd ar y 27ain.


## S. F. BYRNE
**Adeiladwr a Saer Maen**



Ffôn: 01970 832068
M: 077626 20309
**Gwneir pob math o waith**


**IONAWR**

2 **Bethel** 5 Uno yn Nasareth
**Nasareth**
**Rehoboth**
**Eglwys Dewi Sant**: 2 Cymun Bendigaid

9 **Bethel** 10 Parch Ifan Mason Davies
**Nasareth**
**Rehoboth**
**Eglwys Dewi Sant** 4 Gosber a Chymun

10 **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch**. Cinio Calan, Clwb Golff, Capel Bangor, 7.30 p.m.

11 **Merched y Wawr, Tal-y-bont a'r Cylch**. Recordio 'Talwrn y Beirdd' yn y Neuadd Goffa

13 **Sefydliad y Merched Tal-y-bont**. Dathlu'r Flwyddyn Newydd. Cinio yn y Llew Gwyn, 12.30

16 **Bethel** 10 Gweinidog
**Nasareth**
**Rehoboth**
**Eglwys Dewi Sant** 11 Cymun Bendigaid

17 **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch**. Brethyn Cartref

18 **Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont**. Noson Bingo

23 **Bethel** 6 Gweinidog
**Nasareth**
**Rehoboth**
**Eglwys Dewi Sant** 9.30 Gwasanaeth y Bore (Matins)

27 **Sefydliad y Merched Tal-y-bont**. 2 p.m. Prynhawn yr aelodau

30 **Bethel** 10 Parch Terry Edwards
**Nasareth**
**Rehoboth**
**Eglwys Dewi Sant** 10 Undebol Llandre

Dymuna **Mrs Kathleen Richards**, Y Bryn, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a'i chymdogion. Ni fydd yn anfon cardiau Nadolig eleni.



**Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont (01970 832438) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.**


Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn
BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD


Golygyddion y rhifyn hwn oedd Rhian a Catrin, gyda Ceri'n dylunio. Golygyddion rhifyn mis Ionawr fydd Gwyn a Falyri (01970 832560), a Mared, gydag Ian a Sara'n dylunio. Dylai'r deunydd fod yn llaw'r golygyddion erbyn dydd Gwener 7 Ionawr 2005, a bydd y papur ar werth yn y siopau ddydd Gwener 14 Ionawr.

**YN YR YSBYTY**
Anfonwn ein dymuniadau gorau i Mrs Iona Rowlands, Taliesin, John Ellis, gynt o'r Glyn, a'r Parch Owen Williams, Danycoed, Tal-y-bont, sydd yn ysbyty Bronglais ar hyn o bryd.

Dymuniadau gorau hefyd i Mrs Gwen Davies Dolcletwr a Heulwen Richards Clap y Cripiau yn dilyn anhwylder yn ddiweddar.

**SWYDD NEWYDD**
Pob dymuniad da i Rhun Leeding yn ei swydd newydd gyda'r Urdd yng Nghanolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd.

**CYDYMDEIMLAD**
Cydymdeimlwn â Mr a Mrs Jeeves, Cilgant y Coed, Taliesin ar farwolaeth mam Mrs Jeeves mewn cartref yn Nhywyn.

**DIOLCH YN FAWR!**
Dymuna Gerwyn a Non, Frondeg, 1 Penrhiw, Tal-y-bont, ddiolch yn fawr i bawb am y llu o gardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ar achlysur eu dyweddïad yn ddiweddar.

**GENEDIGAETH ŴYR**
Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Haydn Ellis, Manteg, Taliesin, ar enedigaeth ŵyr bach newydd yn ddiweddar, sef Steffan, mab i Vicky.

**SYMUD TŶ**
Dymuniadau gorau i Lucien, Hannah, Emily a Jack sydd wedi symud o'r Emporium i'w cartref newydd yn Llanilar.

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau i Deri Roberts, Felin Fach, Tal-y-bont sydd wedi derbyn gradd MA mewn Cyfansoddi yn ddiweddar.

Anfonwn ein llongyfarchion i Luned Gwyn, Maesgwyn a Robin Fuller, Ffwrnais, sydd wedi bod yn gysylltiedig â'r Ganolfan Mileniwm newydd yng Nghaerdydd. Bu Luned yn gweithio yno fel rhan o dîm newyddion, BBC Cymru. Cafodd Robin y fraint o ganu gyda chôr CF1 yn y seremoni agoriadol. Roedd yn un o'r criw cyntaf i berfformio ar y llwyfan newydd sbon!

**CROESO**
Croeso i Mr a Mrs Z. Chalabi sydd wedi symud i Graig y Deryn, Eglwysfach.

**ADRE O'R YSBYTY**
Dymuniadau gorau i Hywel Williams, Cynnull Mawr, sydd wedi dychwelyd adref ar ôl derbyn triniaeth yn ysbyty Singleton a Mrs Aldwyth Morgan, Maesmawr, Tal-y-bont a fu ym Mronglais yn ddiweddar.

**DIOLCH YN FAWR**
Dymuna Mr a Mrs Evan James, Tre'r Ddol ddiolch i bawb am y cardiau, yr anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas aur.

# Pobl a Phethe



## DATHLU PRIODAS AUR

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mr a Mrs Evan James, 1 Ffordd y Gogledd, Tre'r-ddôl a ddathlodd eu priodas aur ar ddydd Sadwrn, 27ain Dachwedd. Gobeithio i chwi fwynhau'r parti yn y Wildfowler.



## PRIODAS

Llongyfarchiadau i David Byrne, mab Pam Byrne, 5 Ffordd y Gogledd, Tre'r-ddôl, a Lisa Thornton, Gwesty'r Railway, Borth ar eu priodas. Y forwyn briodas oedd Hannah Byrne a'r morynion bach oedd Becky, Megan a Lauren Roberts, nithoedd y briodferch.



**PENBLWYDD ARBENNIG**
Anfonwn ein cyfarchion at Mrs Lywela Evans, Caerdova, Tal-y-bont ar ddathlu ei phenblwydd yn 90 oed ar y 7fed o Ragfyr.

**GWELLHAD BUAN**
Dymunwn wellhad buan i John Rowlands, Hen Hafod, sydd yn yr ysbyty wedi iddo gael llawdriniaeth yn ddiweddar ac i David Jenkins, Hafod Ifan wedi cyfnod o anhwylder. Dymunwn wellhad buan i Mrs Barbara Madden, 13 Maes y Deri a dorrodd ei braich tra ar ei gwyliau yn Nhunisia.

**GENEDIGAETH**
Llongyfarchiadau i Ivor a Jackie Jones, Penygarn, Bow Street ar enedigaeth eu mab Aaron.

**LLONGYFARCHIADAU**
Daeth Nadolig yn gynnar i deulu Cefngweiriog eleni gyda Dafydd yn ennill tocyn Woolworths gwerth £50, drwy ddyfalu pwy oedd y babi, ar y rhaglen deledu Popty. Yr wythnos ganlynol enillodd Huw drip i Oakwood, llyfr a chrys-t wedi ei arwyddo gan Darius (un o sêr Pop-Idol). Llongyfarchiadau mawr iddynt.

**PRAWF GYRRU**
Llongyfarchiadau i Geraint Jenkins, Cerrigcarannau ar basio ei brawf gyrru yn ddiweddar.

**CYDYMDEIMLAD**
Cydymdeimlwn â Brian a theulu y diweddar Alwyn Jones, 1 Glanceulan, Penrhyn-coch (Penlon gynt) yn eu profedigaeth drist.

Cydymdeimlwn â Thomas a theulu y diweddar Dewi Richards Cerrigmawr a fu farw yng nghartref nyrsio Rallt y Trallwm ar Ragfyr 5ed. Bydd teyrnged iddo yn ymddangos yn rhifyn Ionawr.

**PLAID CYMRU, CANGEN TAL-Y-BONT**
Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y gangen yn ddiweddar, ac etholwyd y swyddogion canlynol: Cadeirydd – Bleddyn Huws; Is-gadeirydd – Phil Davies; Ysgrifennydd – Nigel Callaghan; Trysorydd – Dai Dowsett; Aelodau eraill y Pwyllgor – Ursula Byrne, Rhian Evans, Richard Huws, Delyth Ifan a Medi James.

# Ysgol Gymunedol Tal-y-bont



*Teletubbies Tal-y-bont ar ddiwrnod Plant mewn angen*

Er ein bod ni'n brysur iawn yn paratoi ar gyfer y Nadolig, bu mis Tachwedd yn ddigon prysur gyda nifer o ymweliadau wedi eu trefnu yn yr ysgol a sawl gwibdaith hefyd. Dyma flas o'r gweithgareddau:-

## Jambori yr Urdd

Yn y jambori roeddem ni wedi canu caneuon a mwynheuodd pawb yn fawr. Roedd Mr Jones wedi gwisgo lan fel gwrach ac roedd yn rhaid iddo fwyta cream-crackers sych YCH A FI!! Roedd dwy athrawes arall yno wedi gwisgo fel buwch! Roedd y dyn ar y llwyfan, Siôn, yn dda iawn, ond roedd rhywun yn taflu hufen ar blat yn ei wyneb o hyd. Roedd pawb yn chwerthin arno fo ac roedd y jambori yn hwyl.
*Luke a Rhodri*

## Bygiau Baco

Roedd y Bygiau Baco yn sioe ddoniol. Pwped o'r enw Kefin oedd y prif actor ac roedd ganddo ffrind oedd yn dangos i ni beth sy'n digwydd wrth i chi smygu. Dydi ni ddim yn credu fod unrhyw un o'r gynidlleidfa yn mynd i smygu a'r ôl gweld y sioe yma. Yn y sioe roedd rhai o blant yr ysgolion yn dod allan i helpu esbonio pam fod smygu yn ddrwg i chi.
*Elen a Jamie*

## Amser Aur

Rydym wedi cael amser prysur iawn yn ystod y mis. Bu Mr Gwilym Jenkins yn siarad gyda ni am ei waith yn ffermio a daeth Mrs Jones a Mrs Thomas i roi hanes corddi menyn i ni. Diolch yn fawr iawn i chi am roi o'ch amser i helpu'r ysgol.

Cafwyd llawer o hwyl yn cynllunio lliain bwrdd gyda Ruth Jên hefyd, ac fe fydd pob cwpan yn yr ysgol yn siŵr o sgleinio nawr!

## Y Dyn Llaeth

Ar Dachwedd 16, daeth Dylan y dyn llaeth i ddosbarth 3 i ateb cwestiynau'r plant. Roedd e'n dosbarthu 300 botel o laeth bob dydd mewn pedwar pentref. Mae'n codi tua 12 o'r gloch y nos ac yn gorffen ei waith tua 8 o'r gloch bob bore. Roedd pawb wedi mwynhau gwrando arno.
*Gwenno, Elen, Ellie a Nia*

## Yr Urdd

Mae gweithgareddau'r Urdd wed dechrau o ddifri yn ystod y mis a chafwyd sawl noson arbennig. Diolch i Ruth Jên a'r Parchedig Robert Jones am ddod i'n diddanu.



*Y disgyblion yn mwynhau diwrnod Plant mewn Angen*




# Cinio'r Henoed

Dydd Sadwrn, 27 Tachwedd fe gynhaliwyd cinio i henoed plwyf Llangynfelyn yn y Wildfowler yn Nhre'r-ddôl. Daeth hanner cant o'r henoed ynghyd a chafwyd prynhawn difyr o loddesta a sgwrsio hwyliog. Diolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant yr achlysur.



I.O.Thomas a'i Fab
Cigydd, Penygarn
Cig Ffres i'r Rhewgell, Selsig Cartref
Oen Cymru, Cig Eidion Gorau
Ffôn: (01970) 828447

Y Fframdy
Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf.
Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau.
Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.
Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659


CODI TŶ NEU ESTYNIAD?



Iwan Jones, Technegydd Pensaernïol
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
01970 832760

AM EICH HOLL ANGHENION BRODWAITH, CROESBWYTH A THAPESTRIAU
GALWCH YN
PWYTHAU'R SGUBOR
GER SIOP GOFFI A CHREFFTAU PENNAU, RHYDYPENNAU, BOW STREET, ABERYSTWYTH
FFÔN: 01970-820122

A DAVIES
TRYDANOL



Tŷ Morben Isaf
Derwenlas
MACHYNLLETH
Powys Sy20 8SR
ALAN DAVIES Ffôn 01654 781213

D H TAXIS
Teithiau Pell ac Agos
07831 094774
Cartref: 01970 832349



## NEUADD GOFFA TAL-Y-BONT



Cynhaliwyd y Ffair Nadolig ar ddydd Sadwrn, 27 Tachwedd ac fel arfer roedd yn amlwg fod y gwahanol gymdeithasau wedi bod wrthi'n brysur yn casglu nwyddau ar gyfer eu gwerthu ar y stondinau a chasglu anrhegion tuag at y raffl. Roedd y nifer a ddaeth i'r Ffair eleni ychydig yn llai na'r arfer ac o'r herwydd ni wnaed cymaint o elw a'r blynyddoedd cynt. Ond wedi dweud hynny, fe godwyd dros £960 i goffrau'r Neuadd yn ystod y p'nawn. Mae'n braf gweld fod pobl yn hoffi cael y cyfle i gymdeithasu ac i gael sgwrs dros baned o de.

Ar ran Pwyllgor Rheoli'r Neuadd hoffwn ddiolch i bawb a fu'n helpu tuag at y Ffair naill ai drwy gyfrannu tuag at y stondinau neu'r raffl, i'r aelodau fu'n brysur yn gwerthu ar y stondinau ac i'r rhai a gyfranodd gacennau a nwyddau ar gyfer y te. Hefyd hoffwn ddiolch i chi y cyhoedd am eich cefnogaeth. Mae'n hanfodol bwysig ein bod yn trefnu achlysuron o'r fath o bryd i'w gilydd er mwyn codi arian tuag at gynnal a chadw'r Neuadd ar gyfer y dyfodol.

*E. Jones*



# SUL Y COFIO

Yn y Neuadd Goffa yn ôl yr arfer cynhaliwyd gwasanaeth Sul y Cofio ar Dachwedd 14eg 2004 dros bawb a wasanaethodd, ac yn arbennig am y rhai o'r gymuned a gollodd eu bywydau yn y ddau ryfel byd. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchedigion Robert Jones a D. Brian Thomas. Cafwyd ddwy funud o ddistawrwydd am unarddeg o'r gloch.

Darllenwyd rhestr o enwau'r rhai a fu farw'n y ddau ryfel byd gan Dr Gwynn Penrhyn Jones a gosodwyd y torchau pabi ar y coflechi gan Mr Bob Southgate a Mr D.P. Morgan. Canwyd yr utgorn olaf gan Dennis Foster a Mrs Louisa Phillips fu'n cyfeilio ar y piano. Yn ystod y gwasanaeth casglwyd y swm o £117.70 tuag at y Lleng Brydeinig Frenhinol (Apêl Pabi).

Cydnabyddir yn ddiolchgar y weledigaeth a'r haelioni roddwyd fel arwydd o ddiolchgarwch gan y pentrefwyr yn dilyn y Rhyfel Mawr ac a alluogodd adeiladu'r Neuadd Goffa ac sydd yn parhau i fod yn gaffaeliad tra gwerthfawr yn y pentref.

## Cerdd i'r Cyfarwyddwr

Yn ddiweddar, fe ymddeolodd Roger Williams ar ôl cyfnod o bron ugain mlynedd o wasanaeth fel Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol Cyngor Sir Ceredigion.Trefnwyd nifer o ddigwyddiadau i dalu teyrnged iddo, ac un o'r prif uchafbwyntiau oedd perfformiad gan gôr o 300 o ddisgyblion ysgolion cynradd y sir dan arweinyddiaeth Emyr Wynne Jones, yr Ymgynghorydd Cerdd. Cyfansoddwyd cerdd arbennig ar gyfer yr achlysur, o waith y Prifardd Gwenallt Llwyd ab Ifan, Llys Alaw, Tal-y-bont, ac fe'i gosodwyd ar gerddoriaeth gan Meirianwen Jones-Williams, disgybl yn Ysgol Penweddig, ar gyfer ei pherfformio ar y noson. Cyflwynwyd copi o'r gerdd a'r gerddoriaeth wedi eu fframio, ynghyd â chryno-ddisg o'r perfformiad, i Mr Williams.

# Croeso!



Croeso cynnes iawn i'r tîm o olygyddion newydd sydd wedi ymuno am y tro cyntaf y mis hwn â'r hen stêjars, sy'n golygu Papur Pawb o fis i fis, sef Rhian Evans, Glanrafon, a Catrin Jenkins, Ynyseidiol, gyda help a chefnogaeth gan Ceri Jones ar yr ochr ddylunio. Mae'r ddwy ferch ifanc hyn wedi bod yn weithgar ers blynyddoedd gyda'r Clwb Ffermwyr Ifanc, ac yn cyfrannu o'u doniau i nifer o weithgareddau yn y pentref. Gyda dwy o'r calibr yma yn fodlon cymryd gofal am rifyn, mae'r argoelion yn dda am ddyfodol llwyddiannus i'r papur am flynyddoedd lawer i ddod!



## CYMDEITHAS Y CHWIORYDD

Prynhawn Mawrth, 9 Tachwedd, roedd gwledd i'r llygaid yn disgwyl yn Festri Rehoboth, Taliesin. Roedd Mrs Beti Jenkins, Carreg Cadwgan, a'i merch Delyth wedi bod yn brysur yn arddangos gwaith Beti. Bu hi yn ein tywys drwy ei gwaith, gan ddangos un o'r pethau cyntaf iddi bwytho tra yn yr Ysgol Gynradd yn Llwyncelyn, a hwn a ddaeth a gwobr gyntaf iddi yn Eisteddfod yr Urdd.

Buom yn synnu a rhyfeddu at y gwahanol waith roedd Beti yn ei wneud: gwau, crochet, pwythau croes, pwytho du, y lluniau yr oedd wedi eu gwnïo, a hyd yn oed *decopage*. Yr oeddem yn falch o glywed Mrs Jenkins yn dweud fod y merched hefyd yn ymddiddori ac yn gwnïo, ac yn falch fod eu hwyresau hefyd yn dechrau dilyn yn ôl ei throed.

Prynhawn bendigedig yng nghwmni ein gilydd, ac edrychwn ymlaen i'r cyfarfod nesaf ar y 7ed o Ragfyr a'r prynhawn yng ngofal Donald Morgan, Blodau'r Bedol, Llanrhystud, yn arddangos gosod blodau at y Nadolig a choginio at yr ŵyl.


### Canolfan Cynghori Bro Ddyfi

**Fedrwch chi roi chwech awr o'ch amser i helpu'r gymuned?**

Mae Canolfan Cynghori Bro Ddyfi yn chwilio am wirfoddolwyr o Gymry Gymraeg sy'n fodlon cael eu hyfforddi i ddod yn Gynghorwyr Cyffredinol.

- Hyfforddiant yn rhad ac am ddim
- Cyfle i ymuno â thîm sy'n llawn egni
- Cyfle i wneud gwahaniaeth

Am ragor o wybodaeth gadewch neges ar 01654 700192 a daw aelod o'r tîm i gysylltiad â chi.




Salon Leri
Pob agwedd o drin gwallt gan Richard
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

GAREJ DAVMOR
M.O.T., Gwasanaeth, Batris a Theiars
Gellir llogi car, fan neu fws mini i'w gyrru eich hun
www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

afiaith
Martin Davis MA
Gwasanaethau Cyfieithu
addasu ysgrifennu ymchwil golygu sgriptio
Is-y-Coed Tre Taliesin Machynlleth Powys SY20 8JG
ffôn/ffacs (01970) 832230 e-bost afiaith@celtic.co.uk

Siop y Pethe
Aberystwyth
Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

# ALWYN RICHARD JONES



Trist yw cofnodi marwolaeth anamserol Alwyn ar 13 Tachwedd 2004 yn 56 oed wedi cystudd blin. Ganwyd ef ym Mhenrhiw, Tal-y-bont yn 1948, yr ail blentyn o bump i Richard a Dilys Jones, eithr symudodd y teulu i fyw ym Mhenlôn pan oedd yn 7 oed. Mynychodd yr Ysgol Gynradd leol ac yna Ysgol Uwchradd Dinas. Roedd Alwyn yn weithgar gyda phopeth yn y pentref. Mynychai Gapel Bethel a'r holl weithgareddau oedd yn gysylltiedig ag ef a hynny bob nos o'r wythnos yn ystod y pumdegau a'r chwedegau cynnar gan fynd o amgylch y capeli eraill yn eu tro i berfformio a chystadlu mewn cyfarfodydd cystadleuol. Yna'r Clwb Ieuenctid, a'r Clwb Ffermwyr Ifanc am gyfnod byr cyn ymuno ag Aelwyd Glannau Eleri a sefydlwyd gan Cledwyn a Carwen Fychan yn Ysgoldy Bontgoch, lle cafwyd pob cyfle i fagu hyder a meithrin talent naturiol, a chymerodd yntau ran mewn gornestau siarad cyhoeddus, dramâu a nosweithiau llawen. Yno daeth nifer o'r bechgyn at ei gilydd i ffurfio parti canu, sef 'Hogiau Bro Eleri', a chymeriadau oeddynt bob un. Cyfnod arbennig o hapus a phrysur oedd hwnnw i Alwyn a'i gyfoedion. Roedd Penlôn bob amser yn llawn o ffrindiau direidus Alwyn, Brian a Meurig, a'r rhieni wrth eu bodd yn eu cwmni.

Roedd ei dad-cu a'i fam-gu yn ffermio Tŷ-hen, a chyda'r cysylltiad hwnnw daeth amaethyddiaeth yn rhan bwysig o'i fywyd. Ar ôl iddo adael yr ysgol yn bymtheg oed bu am chwe mis yn cynorthwyo yn Tŷ-hen oherwydd anhwylder iechyd ei dad-cu a'i ewythr, cyn cael swydd yng Ngogerddan yn Hydref 1963 yn gweithio ar y plotiau gwair a llafur. Mynychodd gyrsiau wythnosol yng Ngholeg Felinfach dros gyfnod o dair i bedair blynedd ar ddulliau ffermio a mecaneg gan ennill cymwysterau angenrheidiol. Yn dilyn nifer o ddyrchafiadau penodwyd ef yn 1975 yn Is-reolwr yn gyfrifol am dîm o weithwyr oedd yn darparu tir gogyfer â'r fferm arbrofol. Yn 1983 ymgymerodd â chyfrifoldeb dyddiol y fferm, ac yna yn Hydref 1994 fe'i penodwyd yn Rheolwr fferm Gogerddan. Cafodd brofiad helaeth o weithgareddau amrywiol a bu'n gyfrifol am ddatblygu yn ymarferol y gwaith ymchwil ar silwair gan gynnwys y gwaith arloesol gyda byrnau mawr. Yn ogystal â bod yn gyfrifol am hynt a helynt stoc y fferm bu hefyd yn cynghori gwyddonwyr ar sut i ddefnyddio offer technegol ar dir arbrofol. Yn ystod y degawd diwethaf gorfu iddo wynebu newidiadau mawr ym mholisi gweinyddu'r fferm ac eleni cwblhaodd 41 mlynedd o wasanaeth di-dor a chlodwiw i IGER.

Cyfarfu â Delyth a phriododd y ddau yn 1974, a chawsant 30 mlynedd hapus gyda'i gilydd. Eu cartref cyntaf oedd Tŷ Leri, Tal-y-bont, cyn mynd i Aberystwyth am gyfnod, yna symud i Gelli Deg, cyn prynu tŷ yn Rhydyrysgaw, Glan-ceulan, Penrhyn-coch. Ganwyd iddynt ddwy ferch, sef Meleri a Lowri, a bu eu llwyddiant yn destun balchder mawr iddo.

Bu'n weithgar iawn ym mywyd cymdeithasol Penrhyn-coch hefyd, yn Ysgrifennydd Cymdeithas Tir Glas Aberystwyth, Cymdeithas y Penrhyn, Clwb Cinio'r Dynion, aelod diwyd o Blaid Cymru, ac aelod o Gôr Cantre'r Gwaelod. Nid anghofiodd ei bentref genedigol chwaith a bu'n aelod brwd a gweithgar o Sioe Tal-y-bont am gyfnod hir. Clywsom sawl stori am ei ddrygioni pan fyddai'r côr yn canu mewn cyngherddau. Alwyn a Tegwyn Rhosgoch â'u jocs yn gwneud i bobl eraill chwerthin ar lwyfan a hwythau'n gallu cadw wynebau syth. Un fel'na oedd Alwyn, tynnwr coes di-ildio yn llawn direidi, ond roedd 'na ochr ddwys a doeth iddo hefyd, ac yng ngeiriau Myrddin ap Dafydd:

"Yn gall o dan ei gellwair,
Yn goch ei waed, gwych ei air."

Un o'i bleserau mawr oedd carafanio yn Eisteddfod yr Urdd a'r Genedlaethol, a thros y blynyddoedd gwnaeth ef a Delyth lu o ffrindiau. Wynebau newydd a ffrindiau newydd bob blwyddyn yn cael eu hychwanegu at y cylch eang oedd yn bodoli eisoes.

Tair blynedd union i ddiwrnod ei farw cafodd ergyd drom o wybod ei fod yn dioddef o gancr, ond derbyniodd y salwch gydag urddas anghyffredin. Brwydrodd yn ddewr drwy'r cyfan, yn wir weithiau roedd y teulu'n teimlo mai ef oedd yn eu cynnal hwy drwy'r uffern a wynebodd. Mynych y deuai englyn John Owen Jones i'r meddwl wrth ei weld yn dihoeni:


Rwyf innau'n rhwyfo ennyd – yn ifanc
Ar afon fy mywyd,
Ni wn fy hun 'run funud
Am hynt hon na maint ei hyd.

Cafodd y gofal gorau posibl gan Delyth, Meleri a Lowri ac roedd eu dewrder hwy yr un mor anhygoel. Bu ei deulu a'i ffrindiau niferus hefyd yn gefn mawr iddo ac yn driw iawn iddo hyd y diwedd. Bu'r angladd yng Nghapel y Garn, Bow Street, ddydd Iau, 18 Tachwedd a rhoddwyd ei weddillion i orffwys ym mynwent gyhoeddus Tal-y-bont.

Dymuna Delyth, Meleri a Lowri a'r teulu oll ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth.

*Hefin T Llwyd*

# DAVID HOWARD



Daeth ton o dristwch i ardal Tre'r-ddôl a'r cylch ar 27ain Hydref 2004 pan nodwyd marwolaeth David Howard. 'Pancho' oedd ei enw i'w ffrindiau, dyn ei fro, yn boblogaidd ac yn barod ei gymwynas i bawb.


Fe'i ganwyd i'r ddiweddar Catherine ac Albert Howard, a magwyd ym Mhencae Villa, Taliesin, gyda'i frodyr a'i chwiorydd, sef Richard, Sidney, ac erbyn hyn y diweddar Edwin, Eirlys a Mary. Wedi gadael Ysgol Llangynfelyn gweithiodd mewn amryw o lefydd yn cynnwys Fferm Dolgoch ger Ffwrnais, cyflenwyr glo Hughes, Bow Street, a Fferm Tanllan, Tre'r-ddôl, cyn ymddeol.

Yn ystod ei yrfa symudodd i fyw i Dre'r-ddôl. Ni fu diogi yng nghyfansoddiad Pancho – roedd ganddo lawer iawn o ddiddordebau, gan gynnwys pysgota ar yr afon Ddyfi, a gwerthodd filoedd o lyfrau raffl at achosion da. Ar nos Sadwrn byddai'n picio ar y bws i Dal-y-bont i weld ei ffrindiau yn y White, cyn diwedd y noson yn y Fowler, Tre'r-ddôl, lle chwaraeodd lawer o ddartiau a dominos yn llwyddiannus i'r timau lleol.

Wedi ymddeol, gwariodd lawer o'i amser yn Nolclettwr gyda'r defaid a'r ŵyn, a mwynhau ambell baned a sgwrs ar yr aelwyd. Bob nos Sul byddai'n troi i wrando ar Radio Cymru – Dai Jones i ddechrau, ac yna ei arwyr, John ac Alun, yn wir bu'r radio yn gysur mawr iddo yn ystod ei waeledd yn ysbyty Glangwili, lle y cafodd ofal arbennig. Bu ei angladd yn Eglwys Llangynfelyn, a rhoddwyd i orffwys ym mynwent yr eglwys. Bellach aeth gwaith a gorffwys yn un.

*K.G.E.*

# ER COF AM GLYN MICHELL



Gyda thristwch y daeth teulu a chymdogion ynghyd yng Nghapel Nazareth ar ddydd Gwener y 12fed o Dachwedd i dalu'r gymwynas olaf i Glyn Michell, mab William Michell, a'r diweddar Enid Michell, Madryn, Maes-y-Felin, Tal-y-bont. Arweiniwyd yr oedfa gan ei weinidog y Parch Robert W. Jones, ac yn ei deyrnged cyfeiriodd at ffyddlondeb Glyn i'r capel a'i gefnogaeth i'r achos yn Nazareth. Roedd y dyrfa niferus a lenwodd y capel yn tystio i'n hoffter o Glyn ac yn arwydd o'n parch a'n hedmygedd o Mr Michell a fu mor ofalus o'i fab ar hyd y blynyddoedd.

Rhyfedd meddwl mai ym Mhen Llŷn y magwyd Glyn, gan mai fel un o blant Ponterwyd y byddem yn meddwl amdano. Cafodd ei eni ym Mharc Gwyn, Ponterwyd gan symud yn dair wythnos oed i gartref ei fam, yn ardal Sarn Bach, gan fod ei dad ar y pryd yn yr awyrlu. Roedd ei gymeriad yn gyfuniad o gadernid y bryniau ac addfwynder llawr gwlad. Dychwelodd y teulu i Geredigion ym 1950, yn gyntaf i Gelli Angharad, ac yna i Bonterwyd. Yn ystod y blynyddoedd yma bu Glyn yn ei dro yn ddisgybl yn ysgolion Comins Coch, Capel Bangor ac Ysgol Sir Ardwyn.

Teleffonydd oedd Glyn wrth ei alwedigaeth, a debyniodd hyfforddiant yn Birmingham tra oedd yn gweithio i'r CEGB. Yn y Fridfa Blanhigion y treuliodd weddill ei yrfa, yn gofalu am y switsfwrdd yng Ngogerddan, a chafodd glod mawr am ei waith cwrtais a chywir. Mae llun o'r Plas ar wal y cartref, yn rhodd gan ei gyfeillion, yn nodi iddo roddi 37 mlynedd o wasanaeth gwerthfawr yno.

Prif ddiddordeb Glyn oedd byd y llyfrau a chyfeiriwyd yn yr angladd at y direidi yn llygaid Glyn wrth iddo wrando ar rywun yn canmol llyfr newydd, cyn cyfaddef ei fod wedi hen ddarllen y gyfrol. Yn flynyddol yr oeddwn yn ceisio rhoi copi blaen o *Gwledd y Nadolig* trwy'r drws iddo, a doedd dim yn well ganddo na thynnu coes staff Siop y Pethe am ei fod ef, cwsmer cyffredin, wedi ennill y blaen arnynt unwaith eto. Nid casglwr llyfrau yn unig oedd Glyn, ond darllenwr brwd a deallus, ac nid oedd yn brin o fynegi ei farn yn glir, yn enwedig os oedd wedi darllen cyfrol anfoddhaol! Chwith meddwl na fydd yn medru mwynhau'r cyfoeth o lyfrau sy'n dod o'r wasg eleni.

Yn dilyn yr angladd yn Nhal-y-bont, aed ymlaen i roddi Glyn i orffwys ym mynwent Ysbyty Cynfyn, yn ymyl ei fam; hithau hefyd wedi ein gadael yn 62 mlwydd oed. I'n stryd fach ni, roedd atgof o'r golled honno ugain mlynedd yn ôl i'w glywed wrth i ni ffarwelio â chymydog arall, un oedd yn annwyl iawn yn ein golwg.

Dymuna Bill ddiolch i bawb am bob arwydd o garedigrwydd yn ystod ei brofedigaeth, ac i staff Cartref Preswyl Tregerddan a Chartref NyrsioWestminster, Y Trallwng am eu gofal.

*DPhD*

# C.FF. I. TALYBONT A'R CYLCH



*Aled Llyr a Geraint yn mwynhau*

Bu llwyddiant i Glwb Ffermwyr Ifanc Talybont yn nechrau Tachwedd yn Eisteddfod y Sir a gynhaliwyd eleni lawr yn Llandysul, gyda nifer o'r aelodau yn cipio gwobrau.

| | | |
|---|---|---|
| Unawd dan 13 | 1af | Elen Thomas |
| Llefaru dan 13 | 2il | Cerys Evans |
| Llefaru dan 18 | 3ydd | Sian Price |
| Unawd dan 21 | 2il | Peter Leggett |
| Adrodd Digri | 3ydd | Aled Llŷr |
| Deuawd Ddoniol | 3ydd | Aled Llŷr a Geraint Jenkins |

Ar ddiwedd y dydd daeth y clwb yn gydradd 6ed efo Clwb Trisant – camp fawr i ddau glwb bach o dop y sir.

Wedi'r Eisteddfod a'r holl ymarfer cafwyd noson hwyliog gan wylio eitemau o'r eisteddfod yn ogystal â hen ddramâu, nosweithiau o hanner awr adloniant ayb. Ar nos Fawrth 16 Tachwedd bu'r aelodau lawr yn Nhregaron gyda rhai o glybiau eraill gogledd y sir, yn mwynhau noson o 'Bouncy Boxing'.

Yna, ar y nos Fawrth ganlynol bu pawb yn mwynhau noson o fowlio deg yng Nglan y Môr, Clarach. Cafwyd noson o gwis ar y 30 o Dachwedd yng ngofal rhai o swyddogion y clwb – noson hwyliog a chystadleuol iawn!





*Lisa Healy a Peter Leggett yn cystadlu ar y canu*


**Cronfa Eleri**

**Blwyddyn 2004 - dros £11,000 i'w rannu**

**Gwahoddir ceisiadau am gymorth i gynlluniau sy'n cydnaws ag amcanion y Gronfa**

Ffurflen gais yn awr ar gael oddiwrth:

Ysgrifennydd Y Gronfa
Garreg Wen
Tal-y-bont
Ceredigion SY24 5HJ

Tel: 01970 832551 e-bost: iolo.apgwynn@tiscali.co.uk

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Ionawr 20fed 2005**

'Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwyllianol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu'




# Ailgylchu yn y Banc

Mae'r cynllun ailgylchu lleol, sy'n cael ei redeg mewn partneriaeth rhwng Cyngor Sir Ceredigion (CSC) a Chlwb Ieuenctid Tal-y-bont, wedi bod yn llwyddiant mawr ers i'r banciau cael eu lleoli ar y safle ger y 'Cae Bach' ym mis Ionawr 2004.

Aeth trigolion Tal-y-bont ati'n frwd i gefnogi'r cynllun o'r cychwyn a bu'r safle'n cynhyrchu'r cyfanswm ail fwyaf o ddeunyddiau i'w hailgylchu o gymharu â 13 o bentrefi eraill y cynllun – gobeithio y gellir parhau â'r dechrau da yma.

Mae'r cynllun yn rhan o beilot sy'n ceisio cynyddu'r canran o wastraff rydym yn ei gynhyrchu a'i ailgylchu, trwy ddarparu banciau o fewn pentrefi lleol ar gyfer deunyddiau megis papur, gwydr, caniau a phlastig. Mae yna hefyd gynlluniau ar y gweill i ehangu'r ystod o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu trwy ddarparu banciau compost a chardfwrdd. Ar hyn o bryd, mae'r banciau'n cael eu gwacáu'n rheolaidd unwaith yr wythnos ar ddydd Llun, ond gellir ffonio CSC ar 01545 572 572 i drefnu casgliadau ychwanegol.

Dosbarthwyd holiaduron o amgylch cartrefi'r ardal yn ddiweddar er mwyn i drigolion cael lleisio'u barn am y cynllun ac argymell unrhyw welliannau. Os nad ydych wedi derbyn holiadur, cysylltwch â'r rhif ffôn uchod. Cofiwch ddychwelyd eich holiadur i'r blwch post wrth ymyl y safle ailgylchu yn fuan, er mwyn cael cyfle i ennill gwobr yn y gystadleuaeth!

Am gadw golwg ar y safle, mae'r Clwb Ieuenctid yn derbyn £10 am bob tunnell o ddeunydd ailgylchu sy'n cael ei gasglu yno. Gyda'r Nadolig ar y trothwy, mae'n gyfnod delfrydol i ailgylchu. Gobeithio y gwelwn ragor o drigolion Tal-y-bont yn cymryd mantais o'r cynllun ac yn helpu'r amgylchedd yn ogystal â'r Clwb Ieuenctid ar yr un pryd!

Hefyd hoffai CSC eich hysbysu y bydd yna gasgliadau ychwanegol arbennig ym mis Ionawr 2005 i gasglu a chompostio coed Nadolig go iawn. Gellir cael rhagor o wybodaeth drwy ffonio 01545 572 572.

Mae'r tabl isod yn dangos faint o wastraff a gasglwyd ers dechrau'r cynllun:

| **Chwarter** | Gwydr (kg) | Papur (kg) | Plastig (kg) | Caniau (kg) | **Cyfanswm** (kg) |
|---|---|---|---|---|---|
| **1 31/1/04 – 24/4/04** | **1603** | **3339** | **340** | **165** | **5447** |
| **2 1/5/04 – 24/07/04** | **2300** | **3150** | **370** | **250** | **6070** |
| **3 31/7/04 – 23/10/04** | **1690** | **2820** | **410** | **200** | **5120** |
| **Cyfanswm** (kg) | **5593** | **9309** | **1120** | **615** | **16637** |

*Gerwyn Jones*


**Cawod Defaid Symudol**
**ARTHUR MORGAN**

**Dosbarthwn a gwaredwn 'dip defaid'**



Angorfa, Y Ferwig, Aberteifi
01239 615085 Mobeil 0421 786292


## CYNLLUN COED NADOLIG

Cofiwch dynnu eich coeden Nadolig 'go iawn' i lawr ar 6 Ionawr! Yna dewch â hi draw i'r Safle Ailgylchu, ger Maes-y-deri, Tal-y-bont, cyn 10 o'r gloch fore Sadwrn 8 Ionawr 2005.

(Trefnir gan Gyngor Sir Ceredigion a Chlwb Ieuenctid y pentref – dewch i gefnogi!)

## CYNGOR CYMDEITHAS CEULANAMAESMAWR

Wrth i'r is-gadeirydd, y Cyng. Rhian Evans, yn absenoldeb y Cadeirydd groesawu'r Cynghorwyr estynnwyd yr un croeso i'r Heddwas Phil Gower gan ei wahodd i annerch y Cyngor. Eglurodd yntau mai un o dîm o bedwar ydyw sy'n plismona'r cymunedau gwledig yng Ngogledd Ceredigion. Brysiodd i ddweud fod adegau pan fo galwadau brys eraill yn dod i'w rhan ac felly'n gorfod rhoi blaenoriaeth i rheini yn hytrach na phlismona lleol.

Y mae'r gor-yrru gan gerbydau trwy'r pentref yn parhau i fod yn achos o bryder i'r Cynghorwyr. Adroddodd yr Heddwas fod defnyddio'r fan gyda chamera yn dwyn ffrwyth ac roedd yr ystadegau roddodd gerbron i'r Cynghorwyr yn gadarnhad o hynny. Gofynnwyd iddo hefyd am y sefyllfa ynglŷn â throseddau lleol. Eglurwyd mai ychydig iawn o droseddau a roddir gwybod i'r Heddlu amdanynt ac mai canran fechan iawn sydd o gynnydd o flwyddyn i flwyddyn mewn troseddau yn y gymuned yma. Diolchwyd iddo am roi o'i amser ac am adroddiadau diddorol i'r Cynghorwyr.

Gyda'r is-gadeirydd yn trosglwyddo'r awenau i'r Cadeirydd, Cyng. Delyth Ifan, parhawyd a'r Cyngor gan dderbyn bod cofnodion mis Hydref yn adroddiad cywir.

Deallir y bydd yr ymchwiliad cyhoeddus i ystyried gwrthwynebiadau i Gynllun Datblygu Unedol Ceredigion yn dechrau ar y deunawfed o Ionawr.

Rhoddwyd adroddiad gan y Cadeirydd yn dilyn mynychu'r cyfarfod ymgynghorol blynyddol gyda swyddogion y Cyngor Sir. Hi hefyd fydd yn cynrychioli'r Cyngor ym mhwyllgorau Un Llais i Gymru yn y dyfodol.

Erbyn hyn mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi cyhoeddi copïau terfynol o'r mapiau sy'n dangos cefn gwlad agored a thir comin cofrestredig. Bydd y mapiau'n dangos darnau o dir fydd gan y cyhoedd hawl mynediad iddynt yn amodau ar rai eithriadau. Bwriedir dod a'r hawliau newydd yma i rym yn ystod gwanwyn 2005.

Eleni eto mae'r Cyngor Sir yn gwahodd Cynghorau Cymuned i wneud ceisiadau i wneud gwelliannau neu unrhyw waith angenrheidiol arall a deimlir bod ei angen ar lwybrau cyhoeddus yn y gymuned. Os oes aelod o'r cyhoedd yn ymwybodol o unrhyw ddiffygion arnynt gallant dynnu sylw un o'r Cynghorwyr neu'r clerc at hyn er mwyn ffurfio cais.

Er mwyn ail adeiladu'r bont dros afon Ceulan ger y Ffald a Gleamings bydd y Cyngor Sir yn cau'r ffordd o'r degfed o Ionawr am gyfnod o chwe wythnos.

Yn dilyn archwiliad blynyddol gan arolygydd ar ran cwmni yswiriant y Gymuned adroddwyd bod angen mân atgyweiriadau ar ddau o'r offer.

Yn ddiweddar, derbyniwyd adroddiad derbyniol oddi wrth yr Archwiliwr Dosbarth ar gyfer cyfrifon yn diweddu fis Mawrth diwethaf. Cymeradwywyd a derbyniwyd y datganiad gan y Cynghorwyr. Yn unol a'r gofynion bu'r ddogfen ar yr hysbysfwrdd ger y Neuadd Goffa am bythefnos i sylw'r cyhoedd.

Derbyniwyd gwybodaeth bod y ceisiadau cynllunio am safle parcio o flaen Frondeg ac i adeiladu sied amaethyddol yn Neuadd Fawr wedi'u caniatáu. Yn ystod y mis derbyniwyd ceisiadau am estyniad i 2 Maes-y-felin ac un i godi garej a storfa y tu cefn i'r Fferyllfa.

# CLWB NOS WENER



*Arwel Rocet Jones*

I'r rhai hynny ohonom sy'n amharod i fentro fawr pellach na'r afon Mawddach i'r gogledd a'r afon Teifi i'r de, a hefyd i'r rhai sy'n deithwyr profiadol, fe gafwyd gwledd gofiadwy yn y Clwb Nos Wener yng Ngwesty'r Llew Gwyn ar 26 Tachwedd. Siaradwr gwadd y noson, a gyflwynwyd gan Mared Roberts, Morlais, oedd Arwel 'Rocet' Jones, Aberystwyth sydd eisoes wedi gwneud enw iddo'i hun fel awdur *Diolch i Nhrwyn* (Y Lolfa), sef llyfr taith hynod hwyliog y troeon trwstan a gafodd wrth deithio wrtho'i hun yng ngogledd India. Ond prif fyrdwn ei sgwrs y tro hwn oedd ei brofiadau yn Kenya yn gynharach eleni. Er mai diben ei ymweliad oedd cymryd rhan mewn taith noddedig drwy ran o fynydd-dir y wlad i godi arian at yr elusen Mind, fe dreuliodd rai wythnosau ar ôl y daith yn crwydro rhannau eraill o Kenya. Llwyddodd i ddifyrru aelodau'r Clwb am yn agos i ddwy awr wrth adrodd yr hanes yn ei ddull dihafal a byrlymus ei hun am ei drafferthion gyda'i gyd-deithwyr, y gwersylla a'r tywydd – heb sôn am ambell ddigwyddiad mwy swreal yn un o drefi'r wlad. Saernïodd ei sgwrs a'r darlleniadau mor ddeheuig nes llwyddo i greu darlun cofiadwy a byw iawn o'r wlad a'i phobl, a hynny heb ddangos yr un llun. Ond i'r rhai hynny ohonoch a gollodd y wledd hon gallwch ddarllen y cyfan o'r hanes yn ei lyfr diweddaraf, sef *Jambo Carib?: taith i Borth Uffern* (Y Lolfa) a hynny am £6.95 yn unig.

## MERCHED Y WAWR TAL-Y-BONT A'R CYLCH

Cafwyd noson ddiddorol nos Lun, 15 Tachwedd, pan groesawyd Mr Ogwyn Davies, Tregaron i'r gangen, a hefyd Mrs Davies, a ddaeth yn gwmni iddo. Mae Mr Davies yn wreiddiol o Drebanos, ac yn gyn-athro celf yn Ysgol Uwchradd Tregaron. Dangosodd inni sleidiau o'i waith celf mewn gwahanol gyfryngau, gan adrodd y stori tu ôl i'r llun. Roedd y lluniau, gan amlaf, yn darlunio rhywbeth oedd wedi ei gyffroi ac eglurodd sut mae ei arddull wedi newid dros y blynyddoedd. Erbyn hyn, mae ei luniau i'w gweld yng nghartrefi nifer o enwogion y genedl. Diolchwyd yn gynnes iddo gan Falyri Jenkins. Y ddwy yng ngofal y te ar ddiwedd y noson oedd Ann Jenkins a Kathleen Richards.

Bu nifer o'r aelodau yn Ffair Nadolig y Neuadd Goffa ar 27 Tachwedd, a diolch i bawb a gyfrannodd tuag at stondin Merched y Wawr.

Gwahoddwyd aelodau'r gangen i fod yn rhan o'r gynulleidfa wrth i'r rhaglen deledu *Twrio* gael ei recordio, ac ar nos Sadwrn, 27 Tachwedd aeth naw ohonom i'r Llyfrgell Genedlaethol i'r perwyl hwnnw. Wedi inni gyrraedd, cawsom ein croesawu a'n tywys o amgylch yr orielau, y Drwm a'r arddangosfeydd yn y Llyfrgell gan Ann Ffrancon, a'r cyfan yn creu argraff ffafriol iawn arnom. Hyfryd oedd gweld crefftwaith Mr Ogwyn Davies yn hongian ar y wal yno, ac yntau wedi sôn amdano pan ymwelodd â ni bythefnos ynghynt. Yna daeth yn amser i'r rhaglen *Twrio* gael ei recordio, a braf oedd cael bod yn bresennol wrth i'r rhaglen gael ei darlledu'n fyw.

## SEFYDLIAD Y MERCHED TAL-Y-BONT

Ar ddydd Sadwrn y 6ed o Dachwedd ymunom gyda sefydliadau eraill y Ffederasiwn yn y cyfarfod cyngor blynyddol yn neuadd gymunedol Borth, pan groesawyd Barbara Gill, cadeirydd NFWI. Daeth dros gant ag ugain o aelodau i'r cyfarfod.

Bu ein trysorydd Barbara Gardener, a hefyd Annie Smith yn gofalu am y raffl yn llwyddiannus iawn o gofio fod yno dwr o bobl, a chawsom ddiolch cynnes oddi wrth Lilian Hughes, llywydd sefydliad Eglwys Fach. Yr oedd cyfle i brynu pethau o stondin *WI Markets* a nwyddau gyda Denman, ein coleg yn Rhydychen. Mae pedair aelod o Dal-y-bont yn mynd yno yn y gwanwyn.

Methodd ein siaradwr ar y 11eg o Dachwedd a dod ar y funud olaf, felly cawsom hwyl gyda chwis a drefnwyd gan Janet Morgan. Ar y 25ain o Dachwedd aeth naw ohonom i'r Ffair Nadolig yng Nghanolfan y Celfyddydau a chael te yn y caffi cyn prynu anrhegion Nadolig.

Yr oedd Sefydliad Tal-y-bont yn falch i godi £142 yn Ffair Nadolig y Neuadd.

Cynhelir cinio cyntaf y flwyddyn ar 13eg o Ionawr cyn bwrw ymlaen a rhaglen liwgar a diddorol am 2005.

*Sheila Talbot (Llywydd)*

## CYMDEITHAS CEREDIGION I'R DEILLION

Mae yn wybyddus i'r Gwasanaethau Cymdeithasol bod yna dros 400 o bobl ddall a rhannol ddall yng Ngheredigion. Tasg amhosibl i'r tîm bychan iawn o dri gweithiwr yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yw cadw cysylltiad â'r rhain i gyd. Gall colli eich golwg eich torri ffwrdd oddi wrth fywyd cymdeithasol a chysylltiadau dyddiol, ac felly fe allai galwad ffôn cyfeillgar fod yn gymorth i leihau'r unigrwydd. Dyna pam bod Cymdeithas Ceredigion i'r Deillion yn barod i lanw'r bwlch trwy weithredu cynllun Ymweliadau Ffôn.

Eisoes fe dderbyniwyd arian gan gwmni Orange i sefydlu tîm o wirfoddolwyr, sydd eu hunain yn ddall, i alw ar y cyfeillion dall sy'n byw eu hunain neu mewn mannau anghysbell. Fe dreulia pob gwirfoddolwr un prynhawn bob ychydig wythnosau yn y ganolfan gyswllt yn Neuadd Llwyncelyn. Fe benodir cydlynydd, na fydd yn ddall, i fod wrth law gwirfoddolwr wrth ei waith yn y ganolfan a thelir iddynt eu treuliau teithio. Darperir hyfforddiant i'r gwirfoddolwyr.

Felly os ydych yn ddall a diddordeb gennych i fod yn rhan o'r tîm galwyr gwirfoddol, fe fyddai'r Gymdeithas yn falch o glywed oddi wrthych.

Fe hoffem hefyd glywed oddi wrth unrhyw un sydd â diddordeb mewn bod yn Gyd-lynydd y tîm hwn. Bydd y Cyd-lynydd yn gyfrifol am drefnu rota gwirfoddolwyr a bod yn gefn iddynt un prynhawn bob wythnos. Telir ffi fechan am y swydd hon.


Gellir cysylltu â'r Gymdeithas ar 01570-471207.






# Papur Pawb
# 25 Mlynedd yn ôl

*Rhai pytiau wedi eu dethol o rifyn Rhagfyr 1979*



Atgofion

Fel y disgwylid atgofion am Fontgoch yn bennaf oedd rhai Mrs Hilda Thomas. Ei dyddiau ysgol pan oedd Miss Lilian Edwards yn athrawes yno, yna ei gyrfa yn Ardwyn. Cyfeiriodd hefyd at rai o'r hen gymeriadau megis Jim y Siop a'i wraig, oedd yn sgwennu i'r Cambrian News a'r Welsh Gazzete. Credent mewn ysbrydion gan godi ofn ar Mrs Thomas i gerdded lawr o Fontgoch i Gwmere. Clywsom Elwyn Jones yn canu "A yw fy enw i lawr" fel hoff ddewis Mrs Thomas.

Dyddiau ysgol a dysgu oedd atgofion Miss Lillian Edwards. Aeth i Ardwyn yn ystod y rhyfel byd cyntaf a chychwyn fel disgybl-athrawes ym Mhontarfynach. Symud i Fontgoch ac yna i Dalybont. Byddai'n cerdded i fyny i Fontgoch bob dydd, a phan gychwynnodd yn Nhalybont roedd 184 o blant yn yr ysgol a'r rheini yn cael, diwrnod i ffwrdd ar achlysur ffair Talybont, a'r Cymanfaeoedd Canu mewn gwahanol gapeli.

Mr D.P. Morgan oedd yr olaf i sgwrsio, a hynny mewn ysbryd hwyliog fel arfer. Yn fab i of

mynnodd roi gwybod i'r beirdd nad oedd dim rhamant mewn gweithio mewn efail gôf pan oedd lleisiau plant eraill i'w clywed y tu allan. Ymunodd â'r Awyrlu adeg y rhyfel diwethaf a dyna sut y daeth i gysylltiad a phobl o'r Iseldiroedd. Medrodd hefyd ddod a beic modur o'r Almaen drosodd i Gymru yn un o'r awyrennau a'i fam yn ei guddio o dan y grisiau. Roedd ei fam hefyd yn cadw syrjeri yn y parlwr, a'r meddyg yn gwneud y ffisig ei hun, am nad oedd fferyllfa yn y pentre 'radeg hynny.



## CYMDEITHAS DEFAID MYNYDD

Bore Gwener, 5 o Dachwedd oedd dyddiad cychwyn Arbrawf ŵyn hyrddod y Gymdeithas. Daeth 11 o aelodau a 24 o ŵyn hyrddod i'r Prawf a bydd rhain yn cyd-bori ar borfa yn unig ar fferm yn ymyl Aberdaron tan ddiwedd Ebrill.

Mae Tarian Rhosgoch yn cael ei rhoi i'r oen hwrdd gorau a'r aelodau sydd yn cymryd rhan yn fotio 3 phwynt i'r gorau, dau i'r ail ac un i'r trydydd. Y canlyniad oedd i hwrdd Dafydd Jenkins, Tanyrallt ennill y Darian ac un Enoc Jenkins, Tynygraig yn ail. Dyma ychydig o hanes y Pencampwr: ei dag clust 4003D, pwyso 42 kg, yn ARR/ARR sef Grŵp un. Bu ei dad mewn canolfan AI yn ystod Hydref 2003 a'r perchnogion yw Beryl Evans a Dyfed, Glanrafon. Cyfartaledd pwysau'r 24 oen hwrdd yn 38 kg ac yn ymestyn o 30 i 46.

Bydd adroddiad ar y Prawf i'w weld yn *Papur Pawb* mis Mai 2005.

*Gareth Evans*


# CREU NOFEL MEWN SIED



Dysgu a darlithio yn Sefydliad Astudiaethau Gwledig, Llanbadarn mae Richard Collins, 7 Sea View, Taliesin yn ôl ei alwedigaeth ond ar Dachwedd 10fed eleni cyhoeddwyd fod ei nofel gyntaf *The Land as Viewed from the Sea*, wedi ei henwi yn rhestr fer Gwobr Nofel Gyntaf Whitbread 2004. Un o wobrau mwyaf anrhydeddus y byd llenyddol.

Nid oedd Richard wedi ysgrifennu fawr mwy na cherdyn post hyd at ei dridegau hwyr pan gafodd gyfnod adref o'r gwaith oherwydd salwch. Roedd ysgrifennu yn fodd o basio'r amser ac osgoi diflastod bod yn gaeth i'r ty. Cychwynodd ysgrifennu *The Land as Viewed from the Sea* yn 2001 ond roedd hedyn y syniad wed'i blannu yn bell cyn hynny yn 1996 yn dilyn taith hwylio gyda ffrindiau ar hyd yr arfordir o Aberystwyth i Ynys Enlli. Yn rhyfeddol mae Richard yn gwneud ei holl waith ysgrifennu mewn sied fler yng ngwaelod yr ardd a'r to erbyn hyn yn gollwng. Nid oes gyfrifiadur ar gyfyl y sied ac ysgrifenna'r cyfan ar daflenni A3 gyda beiro. Creda fod gwneud y drafft cyntaf ar bapur yn hytrach na chyfrifiadur yn allweddol bwysig yn y broses o greu.

Disgrifia beirniaid gwobr Whitbread y nofel fel un ffresh, annisgwyl ag uchelgeisiol. Ceir ynddi fyfyrdod ar dir a môr a natur twyllodrus cariad. Mae dau ffrind yn gweithio gyda'i gilydd ar dyddyn bach, mae un yn gadael i'r llall ddarllen y nofel mae'n ysgrifennu sef *The Land as Viewed from the Sea*. Fel â'r nofel yn ei blaen mae ffuglen yn ymyrryd gyda realiti gan ail ddiffunio perthynas y ddau.




Ganwyd Richard yn Surrey a symudodd gyda'i bartner a'u plant i Gymru yn 1990. Fel un fu unwaith yn gweithio'n hapus fel garddwr a labrwr amaethyddol mae'n cyfaddef fod yr holl sylw a ddaeth yn sgil cyrraedd y rhestr fer wedi bod yn dipyn o sioc i'r system. Erbyn hyn mae wedi gwneud sawl cyfweliad radio a chyda nifer o'r papurau pwysig. Dymunwn y gorau i Richard yn y gystadleuaeth ac edrychwn ymlaen at ddarllen rhagor am ei lwyddiant ym Mhapur Pawb.

# Cymorth Cristnogol

Y mae'r Parch. Jeff Williams, Ysgrifennydd dros Gymru i Gymorth Cristnogol a Ms Anna Jane Evans Ysgrifenyddes Rhanbarth Gogledd Cymru i'r Gymdeithas yn paratoi i gerdded cant ar ugain o filltiroedd o Nasareth, rhwng Caernarfon a Phorthmadog i Fethlehem Sir Gaerfyrddin gyda'r bwriad o godi arian at waith Cymorth Cristnogol yn Israel a Thiroedd y Meddiant.

Mae'r argyfwng dyngarol yma yn waeth heddiw nag y bu dros yr hanner can mlynedd diwethaf gyda dwy ran o dair o'r trigolion yn byw ar lai na phunt y dydd ac ymron ddwy filiwn ohonynt yn gwbl ddibynnol ar gymorth.

Ar Ragfyr y 12ed bydd y daith yn cychwyn gan gyrraedd Corris ar y 14eg.

Ar y 15ed teithio o Gorris i Tre'r Ddol ar dydd canlynol y 16eg o Dre'r ddol i Lanilar gan anelu i gyrraedd Bethlehem ar y 19fed o Ragfyr.

Yn ddios maent yn haeddu cefnogaeth.

Boed iddynt cael taith lwyddiannus. Edrychwch allan amdanynt ddydd Iau'r 16eg.

## CINIO NADOLIG

Cofiwch am Ginio Nadolig

**Henoed Tal-y-bont**

am 12.30 yn y Llew Du
Dydd Mercher, 15 Rhagfyr
Croeso i chwi oll.

Enwau i:
Aldwyth Morgan 832610
Valma Jones 832363
Dr Myrtle Parker 832449

## CYMANFA GAROLAU

MERCHED Y WAWR
TAL-Y-BONT A'R CYLCH
**gyda Geraint Thomas**
**ac eitemau gan blant Ysgol Tal-y-bont**
Capel Bethel, 19 Rhagfyr
6 p.m.
Casgliad: Papur Sain i'r Deillion

# Y TEIRW




Rhoddwyd sylw yn y rhifyn diwethaf at dîm cyntaf mini minors Tal-y-bont ond y tro hwn cawn glywed am hynt a helynt yr ail dîm, Y Teirw, sy'n cael ei reoli gan Ceri Jones a Mike Bailey.

Collwyd dau ddydd Sadwrn ar ddechrau'r tymor oherwyddydd y tywydd. Ers hynny mae'r Teirw wedi chwarae pedair gêm gan ennill un a cholli thair. Mae'r Teirw yn chwarae yn yr adran gyntaf, adran gref iawn gyda thimau arbennig o dda. Mae safon y tîm yn gwella o wythnos i wythnos. Ar Dachwedd 13 chwaraewyd mewn cystadleuaeth lle yr oedd yn rhaid chwarae 8 gêm yn erbyn rhai o'r timau gorau. 0 – 0 oedd canlyniad 6 gêm, ac 1 – 1 oedd y sgôr yn ddwy gêm arall. Canlyniadau agos iawn felly ond yn anffodus methwyd o 1 pwynt i gyrraedd y rownd derfynol. Ymdrech dda, daliwch ati bois, mae yna tymor prysur iawn o'ch blaenau.

## CLWB BADMINTON TAL-Y-BONT

Yn y cyfarfod blynyddol a gynhaliwyd yn ddiweddar etholwyd y swyddogion canlynol: Cadeirydd – Mark Joseph; Is-gadeirydd – Wendy Jones; Ysgrifenyddes – Susie Gandy; Trysorydd – Juliet Trudgill. Mae'r chwaraewyr yn cyfarfod yn y Neuadd Goffa bob nos Fawrth am 8 y.h.

Croeso cynnes i aelodau newydd i ymuno â ni yn 2005. Cynhelir y noson gyntaf ar nos Fawrth, 4ydd Ionawr am 8 y.h.

## GWEFAN NEWYDD I AWDURON

Ym mis Tachwedd eleni ymddangosodd rhifyn cyntaf o *Leafing Through*, cylchgrawn misol electronig newydd, sydd yn cynnig hyd at ddeg o storïau byrion gan awduron o bedwar ban – y mis hwn mae straeon o'r Unol Daleithiau a Bwlgaria yn ogystal â Phrydain Fawr. Katharine York, Gorlan, Taliesin sydd tu ôl i'r fenter newydd ac mae wedi bod wrthi ers mis Ionawr yn ennyn diddordeb yn y safle. Mae'n benderfynol o gynnig dim ond y safon uchaf o storïau i ddarllenwyr ond hefyd mae'n cynnig beirniadaeth deg ac awgrymiadau ar sut i wella storïau nad oedd yn llwyddo ar yr ymgais gyntaf. Gellir ymweld a'r wefan ar www.gorlan.co.uk

ANGEN
Anifeiliaid Tew
(i'w lladd mewn
lladd-dy lleol)

Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Capel Bangor 880627

**Llaethdy**
**Tal-y-bont a'r Cylch**


**Yn dosbarthu i:**
Tal-y-bont, Pentrebach, Taliesin, Llancynfelyn, Tre'rddol, Ffwrnais, Eglwysfach a Glandyfi

Cysylltwch â
**Dylan neu Catherine**
Ffôn: 01970 832516

**Gwersi Gitâr, Gitâr Fas, Drymiau**
*a Mandolin, Bouzouki, a Banjo 5-tant*

Dafydd Saer BMus
**832141**

# PÊLDROED


*Jamie Barron*

Mae tîm Tal-y-bont wedi cael dau ganlyniad da yn ddiweddar mewn cystadlaethau cwpan. Ar 27 Tachwedd yng nghystadleuaeth Cwpan Emrys Morgan (y Canolbarth) curwyd Newcastle (tîm o Bowys nid Castellnewydd Emlyn, fel yr awgrywmwyd yn y rhifyn diwethaf) o bedair gôl i ddim gyda Carwyn Richards a Jamie Barron yn sgorio dwy gôl yr un. Yna ar 4 Rhagfyr ymwelwyd â Llanrhystud yng nghystadleuaeth Cwpan Ceredigion ac mewn gêm agos Tal-y-bont a orfu o dair gôl i ddwy. Sgoriodd Carwyn Richards ddwy gôl unwaith eto a Marc Richards rwydodd y llall.

# RYGBI

Llongyfarchiadau i Gwydion Jones, Gwyn Jones a Steffan Nutting, aelodau o dîm rygbi blwyddyn 9, Ysgol Penweddig, sydd wedi ennill cystadleuaeth Ceredigion yn Aberaeron. Mae'r tîm yn awr yn teithio i Gaerdydd i chwarae yn y rowndiau terfynol cenedlaethol. Pob lwc iddynt a chofiwch efallai y bydd Mr Ruddock yn gwylio!

# HOCI

Mae tîm hoci yn cynnwys merched o'r ardal wedi'i ffurfio i chwarae mewn cynghrair lleol i ferched dan 14 mlwydd oed. Jane Bailey yw'r hyfforddwraig ac y mae'r merched yn ymarfer ar nosweithiau Iau ar faes pob tywydd y Brifysgol. Ymhlith aelodau'r tîm mae Jodie Hughes, Lowri Hughes, Lowri Evans, Megan James, Rosie Bailey, Serian Evans, Anna Davies a Cara Jones. Hyd yn hyn enillwyd un gêm yn erbyn Ysgol Penweddig o ddwy gôl i un ond collwyd gêm arall yn erbyn Tregaron.

Mae'r tîm yn chwilio am noddwr a fyddai'n barod i ddarparu crysau ac os oes gan un o ddarllenwyr Papur Pawb ddiddordeb yn eu noddi, byddai'r merched wrth eu boddau.

Mae Papur Pawb yn awyddus i gynnwys newyddion am hynt a helynt unigolion neu dimau o'r ardal sy'n cystadlu yn y byd chwaraeon. Anfonwch yr hanesion at Gwyn Jenkins drwy ebost (maesgwyn@fsmail.net) neu ffoniwch ef ar 832560.

**TEIARS**
**HUW LEWIS TYRES**

**Tre'r Ddôl, Machynlleth, Powys SY20 8PN**
**Ffôn: 01970 832255 Ffacs 01970 832429**
**hefyd ar agor yn**
**Rhodfa'r Parc, Aberystwyth**
**Ffôn: 01970 636774**

**Am bris cystadleuol ar bob math o deiars, ecsôsts, ac ati, cysylltwch â gwasanaeth lleol...**

- Dewis eang o deiars
- Balansio Electronig
- Ecsôsts
- Tracio
- Brêcs
- Ar agor 6 diwrnod yr wythnos

